

Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Hydref 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 7390**
E-bost: Joseph.Champion@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: SeneddYmchwil.blog

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Senedd Ymchwil

Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Hydref 2018

Awduron:

Joseph Champion

Trosolwg o'r papur:

Mae'r papur hwn yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2 bil gan Lywodraeth Cymru, sef Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).



Cynnwys

Cyflwyniad	1
Craffu yng Nghyfnod 1	2
Gwelliannau yng Nghyfnod 2	3
Gwelliannau gan Lywodraeth Cymru.....	3
Gwelliannau gan wrthbleidiau.....	4
Gwelliannau a dynnwyd yn ôl a gwelliannau nas gwnaed.....	7
Y camau nesaf	8

Cyflwyniad

Ar 16 Ebrill 2018, cyflwynodd Huw Irranca-Davies, sef y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog"), **Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru)** (y Bil) a Memorandwm Esboniadol. Wrth wneud hynny, gwnaeth y Gweinidog **ddatganiad llafar** yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Ebrill 2018, yn esbonio fel a ganlyn:

Bydd y Bil, er yn dechnegol ei natur, yn ei gwneud hi'n bosib i Lywodraeth Cymru sefydlu system genedlaethol i reoli ceisiadau ac i wneud y gwiriadau cymhwysra angenrheidiol ar gyfer y cynnig gofal plant yng Nghymru.

Hefyd, ar 17 Ebrill 2018, cyhoeddwyd Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn. Mae'r datganiad yn dweud ei fod yn:

[...] amlinellu bwriad y polisi presennol ar gyfer yr isddeddfwriaeth y byddai Gweinidogion Cymru wedi'i galluogi i'w gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (y Bil) neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud.

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil **Grynodeb o'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**. Mae'r crynodeb yn cynnwys trosolwg o ddarpariaethau'r Bil, ac mae'n tynnu sylw at brif agweddau'r Bil ac at ddogfennau sy'n gysylltiedig ag ef. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o gefndir polisi i'r **cynnig gofal plant**, y mae'r Bil wedi'i lunio i gefnogi ei weithrediad.

Craffu yng Nghyfnod 1

Dechreuodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei waith craffu Cyfnod 1 ym mis Ebrill 2018, gan gymryd **tystiolaeth ysgrifenedig gan rhanddeiliaid** a chan glywed dystiolaeth lafar gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar **16 Mai** a **14 Mehefin**. Rhoddodd y rhanddeiliaid dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar **24 Mai** a **6 Mehefin**.

Yn dilyn y dystiolaeth a gafwyd, gwnaeth y Pwyllgor 37 o argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil. Mae'r argymhellion hyn a'r rhesymeg sy'n sail iddynt wedi'u nodi yn adroddiad **Cyfnod 1 y Pwyllgor ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil**, a gyhoeddwyd ar 18 Gorffennaf 2018. Lluniodd y Gwasanaeth Ymchwil grynoded o'r adroddiad hwnnw mewn **erthygl a gyhoeddwyd ar 14 Medi 2018**. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru **ymateb i'r adroddiad hwnnw** ar 17 Medi. Cyflwynodd wybodaeth bellach **mewn llythyr ar 17 Hydref 2018**.

Roedd pawb namyn un o aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y pryd yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Fe wnaeth Llyr Gruffydd AC o Blaid Cymru ymwrthod â'r Bil oherwydd ei bryderon ynghylch darparu gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio yn unig, a'r diffyg gwerthusiad llawn ar gyfer y cynnig gofal plant cyfredol.

Fe wnaeth holl Aelodau'r Cynulliad drafod egwyddorion cyffredinol y Bil yn y **Cyfarfod Llawn ar 18 Medi**. Cytunwyd ar egwyddorion y Bil, gyda 41 o blaid ac 11 yn erbyn.

Cyn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gyhoeddi ei adroddiad ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ei adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil ar **16 Gorffennaf 2018**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol adroddiad ar **28 Mehefin 2018** ar briodoldeb y darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

Gwelliannau yng Nghyfnod 2

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 19 Medi 2018 a daeth i ben ar 18 Hydref 2018. Cyfarfu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i drafod a gwaredu'r gwelliannau Cyfnod 2 ar **18 Hydref 2018**.

Cyflwynwyd cyfanswm o 46 gwelliant yng Nghyfnod 2 ac un gwelliant i welliant. O'r rhain, cyflwynwyd 10 gan Lywodraeth Cymru. Yn gryno:

- Derbyniwyd pob un o 10 gwelliant Llywodraeth Cymru;
- Gwrthodwyd 35 o welliannau gan wrthbleidiau;
- Cafodd un gwelliant gan wrthblaid ei dynnu'n ôl; ac
- Ni wnaed un gwelliant gan wrthblaid.

Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 wedi'i **gyhoeddi ar wefan y Cynulliad**.

Gwelliannau gan Lywodraeth Cymru

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddau welliant ar ddechrau Cyfnod 2, ar 19 Medi. Roedd y gwelliannau hyn yn canolbwyntio ar newid y geiriad yn is-adrannau (2) a (3) yn adran 4 o'r Bil. Mae'r is-adrannau hyn yn ymdrin â darpariaeth gwybodaeth gan drydydd parti. O dan y Bil fel y'i cyflwynwyd, byddai'r adrannau hyn wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i adran o Lywodraeth y DU neu Weinidog y Goron roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru.

Newidiwyd hyn gan y gwelliannau cychwynol hynny, fel na all Llywodraeth Cymru ond rhoi caniatâd i'r cyrff hyn roi gwybodaeth iddi, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Bydd y Bil fel y'i diwygiwyd yn dal i ganiatáu i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybodaeth iddi. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa â Chyllid a Thollau EM lle na all Gweinidogion Cymru ond caniatáu iddynt ddarparu darnau penodol o wybodaeth.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru wyth gwelliant pellach ar 4 Hydref 2018. Mae'r set hon o welliannau yn ymwneud â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynnig gofal plant. Er nad ydynt yn gosod y meini prawf penodol ar wyneb y Bil, fel y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, mae'r gwelliannau yn amcanu at gynnig gwell eglurder ynghylch pwy sy'n blant cymhwysol. O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae'r Bil bellach yn nodi y bydd y cynnig ar gael i blentyn sydd 'o dan yr oedran ysgol gorfodol', 'sydd yng Nghymru' ac 'sydd o oedran (neu o fewn ystod oedran) a bennir mewn rheoliadau'.

Yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 18 Hydref, dywedodd y Gweinidog y byddai cynnwys y cymal 'o dan yr oedran ysgol gorfodol', yn golygu y gallai Llywodraeth Cymru ymestyn y cynnig i blant iau na 3 a 4 oed yn y dyfodol heb orfod pennu amser deddfwriaethol i wneud hynny ar lawr y Senedd gan y gellir addasu cymhwysedd y cynnig drwy reoliadau a wneir yn y dyfodol.

Gwelliannau gan wrthbleidiau

Gwrthodwyd pob gwelliant gan wrthbleidiau yn ystod Cyfnod 2 gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Fodd bynnag, ymrwymodd y Gweinidog i drafod rhai materion pellach â'r Aelodau yn ystod Cyfnod 3. Isod, ceir crynodeb o rai o'r prif bwyntiau polisi a drafodwyd yn y **Pwyllgor ar 18 Hydref**.

Roedd nifer o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau yn adlewyrchu'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ei waith craffu Cyfnod 1. Cafodd y gwelliannau hyn eu grwpio i 13 gwahanol gategori.

Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn nodi ei bryderon ynghylch hawl arfaethedig darparwyr gofal plant i wneud cais am ffi ddyddiol o £7.50. Teimlai'r Pwyllgor y byddai'n rhwystro'r teuluoedd mwyaf difreintiedig rhag manteisio ar y cynnig. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru gael gwared ar hawl y darparwyr i godi'r ffioedd ychwanegol. Argymhellodd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru, os oes angen, godi ffi o £4.50 yr awr fesul plentyn er mwyn talu am wir gost y ddarpariaeth a sicrhau cynaliadwyedd darparwyr.

Cyflwynodd Janet Finch-Saunders AC o Blaid Ceidwadwyr Cymru welliant yn cynnig na ddylid codi dim ffi ar riant plentyn a fyddai'n gymhwysol i gael prydau am ddim yn yr ysgol pe byddent o oedran ysgol gorfodol. Roedd Llyr Gruffydd AC o Blaid Cymru yn awyddus i ddiwygio'r Bil i sicrhau y gallai rhieni fanteisio ar y cynnig gofal plant yn gwbl ddi-dâl.

Gwrthodwyd y gwelliannau hyn. Dywedodd y Gweinidog y gallai cynnwys costau ar gyfer bwyd ac ychwanegolion eraill fel rhan o'r gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr olygu nad yw'r cynllun yn fforddiadwy yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Dywedodd hefyd fod gwahanol ddarparwyr yn cynnig gwahanol wasanaethau, lle nad yw rhai yn cynnig bwyd na chludiant, ac felly ni fyddai'n briodol gwneud cynnydd cyffredinol yn y swm a delir i ddarparwyr y cynnig gofal plant. Fodd bynnag, wrth ymateb i bryderon y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

We've published guidance to local authorities, strengthened guidance, on what the upper charging limit should be [...] So, this helps ensure that any charges being made are within a reasonable range, if they are made at all [...] We will also publish revised guidance to strengthen our position on additional charges ahead of the full national roll-out [...] parents must have the option—they must have the option—of providing a packed meal rather than paying for a meal provided by a provider. Providers cannot say, 'You must pay additionally to eat at our establishment.'

[...] Parents must also, within our existing guidance, be able to opt their child out of paid-for off-site activities. You cannot force that child and their family and say, 'Because you're coming to our facility, you must then pay additional to go off on this activity or participate in such activities.'

O ran cael gwared ar y ffioedd i'r rheini a fyddai'n gymwys i gael prydau am ddim yn yr ysgol, dywedodd y Gweinidog:

[It] would be quite difficult to administer and potentially burdensome as well, by the way, on local authorities and on providers and parents. So, I would resist that amendment, but I understand the spirit of it.

Hefyd, ymrwymodd y Gweinidog i ystyried ymhellach sut y gallai Llywodraeth Cymru wneud y wybodaeth ynghylch y gyfradd a delir fesul awr i ddarparwyr yn fwy cyhoeddus, yn fwy tryloyw gyda golwg, efallai, ar gyflwyno rhywbeth i'r perwyl hwn yng Nghyfnod 3.

Cyflwynwyd sawl gwelliant at ddibenion diffinio, ac mewn rhai achosion, ehangu'r pwll o rieni cymhwysol. Un o brif bryderon eraill y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ei waith craffu yng Nghyfnod 1 oedd cyfyngiadau cymhwysedd y cynnig, er enghraifft nad ydyw ond ar gael i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 neu 4 oed. Roedd y Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i ymestyn ei ddarpariaethau i gynnwys rhieni sy'n chwilio am waith drwy ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chael gwaith, gan ddiffinio hynny mewn rheoliadau. O ganlyniad, cyflwynodd Llyr Gruffydd welliant, wedi'i gefnogi gan Janet Finch-Saunders, at ddiben ymestyn cymhwysedd i'r rheini sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant â'r diben o sicrhau cyflogaeth.

Wrth i'r Gweinidog wrthwynebu'r gwelliant hwnnw, dadleuodd fod gan Lywodraeth Cymru nifer o raglenni cymorth gofal plant eraill, fel y soniodd yn ei dystiolaeth, i gefnogi'r rheini sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant. Fodd bynnag, ailddatganodd ei ymrwymiad:

[To] commission a piece of internal work to examine how we can do away with some of the confusion about what support is available for different categories of parent.

Yn dilyn y pryderon a godwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 ac argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, roedd rhai o'r gwelliannau yn amcanu at ddylanwadu ar ddarpariaeth y cynnig gofal plant drwy'r Bil. Cyflwynodd Janet Finch-Saunders welliant yn amcanu at:

- Leihau'r effaith sydd ynghlwm wrth gludo plant rhwng gwahanol ddarparwyr; a
- Chadarnhau drwy reoliadau pwy all ddarparu'r cynnig, gyda phwyslais penodol ar ysgolion a pherthnasau plant cymhwysol.

Wrth ymateb i'r pryderon ynghylch cludo plant, dywedodd y Gweinidog:

[The Welsh Government has] strengthened the guidance to local authorities only in recent weeks over the drive towards co-location, wherever that is possible, and we've also used the £60 million capital funding that we announced within the last few weeks—month—with specific guidelines around that that should be used primarily to drive co-location to avoid the problems of lifting children up, transporting them somewhere else and dropping them down into a childcare setting out of a foundation phase, because we recognise that trying to actually co-locate foundation phase and childcare for most people will be the right solution.

Soniodd hefyd am ei farn ef fod angen amrywiaeth o fewn y sector er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd. Dywedodd y Gweinidog na fyddai darpariaeth a fyddai'n cyd-fynd ag oriau gwaith yr ysgolion bob amser yn gallu bodloni'r amgylchiadau a'r patrymau gwaith amrywiol iawn sydd gan deuluoedd.

O ran caniatáu i ysgolion a pherthnasau agos plant cymhwysol i fanteisio ar y cynnig, dywedodd y Gweinidog:

[...] we've already tweaked the [Administrative] scheme so that we do, indeed, allow grandparents who are registered child minders to avail themselves of the childcare offer, to provide childcare under this offer, whether or not they provide care for their own grandchildren. So, unlike other offers—at this moment in time, but we'll evaluate it—we haven't stipulated, 'Well, you can provide for your own grandchildren, but you must have two or three or four other children as well.

[...] schools can provide the offer, as long as they're registered with CIW as a childcare provider. And, in fact, some are doing this.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei bod yn bwriadu ysgrifennu at y Gweinidog ar ran y Pwyllgor i gadarnhau sefyllfa ysgolion o ran gallu darparu'r cynnig gofal plant. Clywodd y Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 nad oedd ysgolion yn gallu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru eu hunaint i ddarparu gofal plant oherwydd y darpariaethau yng **Ngorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010**.

Roedd gwelliannau eraill yn amcanu at sicrhau y byddai darpariaethau'r Bil yn para amser cyfyngedig neu'n destun adolygiad parhaus. Gwrthododd y Gweinidog y gwelliannau hyn gan ddweud:

[...] we set out clearly, within the regulatory impact assessment for the Bill, our intention to review the extent to which the legislation will have achieved its objectives a few years down the line, and of course we're going to be doing that regardless [...] that's why I've already made plans and have written to the committee to say I have plans to bring forward an amendment during Stage 3.

Gwelliannau a dynnwyd yn ôl a gwelliannau nas gwnaed

Tynnwyd dau welliant yn ôl yn ystod trafodion Cyfnod 2. Roedd gwelliant 5, a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd, yn ymwneud â sicrhau bod darpariaeth ddigonol gofal plant cyfrwng Cymraeg. Dywedodd y Gweinidog:

[...] we don't believe this amendment quite hits the mark in its current form, but it is an area where I would like to work with Llyr and the committee, and also with the Minister for Welsh Language and Lifelong Learning, to see if we can find a constructive way forward and get this right [...] so it could be that we bring back a different amendment during Stage 3, or it could be that, after discussion, we find a different way to take forward things.

Yn wyneb hyn, cytunodd Llyr Gruffydd i dynnu ei welliant yn ôl.

Cytunodd Suzy Davies o Blaid Ceidwadwyr Cymru i beidio â gwneud gwelliant 45, a oedd yn amcanu at gyfyngu ar yr amwysedd posibl yn y Bil drwy fewnosod y gair Saesneg 'must' yn hytrach na 'may' yn Adran 11 o'r Bil. Dadleuodd y Gweinidog na fyddai'r gwelliant yn llwyddo i newid yr effaith gyfreithiol a'i fod felly yn ddiangen.

Y camau nesaf

Dechreuodd Cyfnod 3 o'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) ar 19 Hydref 2018. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Aelodau'r Cynulliad (gan gynnwys y Gweinidog) yn gallu cyflwyno gwelliannau i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2.

Bydd y Cynulliad cyfan yn gwaredu'r gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn. Nid yw dyddiad y cyfarfod hwnnw wedi'i gadarnhau. Yn dilyn Cyfnod 3, rhagwelir y bydd gofyn i'r Cynulliad bleidleisio a ddylid pasio'r Bil yng Nghyfnod 4. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer Cyfnod 4.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch proses ddeddfu'r Cynulliad Cenedlaethol **ar.ei.wefan**. I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â Llinos Madeley, sef y clerc sy'n gyfrifol amdano (**SeneddCYPE@cynulliad.cymru**).